Enw’r bwyd, diod neu gynnyrch amaethyddol gwarchodedig

# Manyleb cynnyrch ar gyfer 'Wystrys y Graig Sir Benfro'

**Dynodiad daearyddol gwarchodedig (DDG)**

Gwlad gyfrifol: Prydain Fawr

**Rhif GB: F0107**

Mae'r ddogfen hon yn nodi elfennau'r fanyleb cynnyrch at ddibenion gwybodaeth.

## Awdurdod cymwys

Enw: Tîm G.I, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Cyfeiriad: Defra,
SW Area
2nd Floor
Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ffôn:

E-bost: ukgiapplications@defra.gov.uk

## Grŵp ymgeiswyr

Mae'r grŵp ymgeiswyr yn cynnwys Tethys Oysters Ltd (cynhyrchydd) ac Atlantic Edge Oysters Ltd (prosesydd)

Enw: Tethys Oysters Ltd

Cyfeiriad: 14 Rectory Road, Llangwm, Sir Benfro, SA624JA Ffôn:

07828195696

Ffacs:

E-bost: andy@tethysoysters.co.uk

Cyfansoddiad: Cynhyrchwyr

Enw: Atlantic Edge Oysters

Cyfeiriad: Uned 3, Parc Busnes Johnston, Johnston, Sir Benfro, SA623PL Ffôn: 07865290243

Ffacs:

E-bost: office@atlanticedgeoysters.co.uk

Cyfansoddiad: Proseswyr

# Math o gynnyrch (fel yn Atodiad XI Rheoliad Gweithredu 668/2014)

1.7: Pysgod, molysgiaid a chramenogion ffres a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt

# 1. Enw(au)’r cynnyrch

'Wystrys y Graig Sir Benfro'/‘Pembrokeshire Rock Oysters’

# 2. Disgrifiad

Mae "Wystrys y Graig Sir Benfro" *Ostrea edulis* yn wystrys wedi eu ffermio sy'n cael eu tyfu a'u cynaeafu yn aber Daugleddau yn Sir Benfro o silod wystrys ac wystrys wedi’u rhannol dyfu a gyflenwir gan ddeorfeydd a chynhyrchwyr masnachol bio-ddiogel. Mae gan amgylchedd morol penodol aber Daugleddau ddyfroedd o’r Iwerydd sy’n gyfoethog eu maethynnau yn cymysgu â dŵr croyw sy'n llifo i lawr o Fynyddoedd y Preseli trwy forfeydd heli a gwelyau morwellt. Mae hyn yn rhoi set benodol o nodweddion organoleptig neu "merroir" i'r wystrys.

*Crassostrea gigas* yw'r brif rywogaeth fasnachol o wystrys a geir yn Ewrop ac maent yn wystrys sy'n tyfu'n gyflymach o'u cymharu ag wystrys brodorol, gan gyrraedd isafswm maint gwerthadwy o 75g mewn 2-3 blynedd. Mae 'Wystrys y Graig Sir Benfro' yn dangos amrywiaeth ym morffoleg eu cregyn ond fel arfer mae ganddynt siâp deigryn neu ellygen nodweddiadol gyda chroestoriad cwpanog dwfn gyda chymhareb hyd: lled: dyfnder o tua 3:2:1. Mae'r gragen yn rhicynnog ac yn rhychog, mae'r clawr chwith (isaf) yn gwpanog iawn, ac mae'r clawr dde (uchaf) fel arfer yn fflat neu ychydig yn amgrwm ac wedi’i leoli o fewn yr un chwith. Mae'r gragen yn olau ond bydd yn cymryd pigmentau pinc o'i fwyd algaidd gan roi'r streipiau a smotiau porffor neu dywyll i’r wystrys.

| | |
|---|---|
| *Blas* | Mae'n rhoi blas ysgafn iawn - 'merroir' glân o heli, ciwcymbr ffres gyda thinc o sitrws a glaswellt.<br>*Ansawdd mwynol cymhleth ar y daflod gyda blas heli menynaidd boddhaus* |
| *Perarogl* | *Perarogl môr ffres* |
| *Gweadedd* | Gorffeniad glân o fwynau'r môr,<br>Cyfuniad o gig meddal a chyhyr crimp. |


Wystrys y Graig yw prif gynhaliwr cynhyrchu masnachol yn Sir Benfro ac maent yn enwog am eu "merroir" glân ysgafn o heli, ciwcymbr ffres a thinc o sitrws a glaswellt gyda gorffeniad glân o fwynau'r môr sy'n adlewyrchu'r cynefinoedd cyfagos a dyfroedd cynhyrchiol dihalog yr Iwerydd y maent yn cael eu tyfu ynddynt.

Mae Wystrys y Graig o Sir Benfro ar gael drwy gydol y flwyddyn oherwydd arferion dyframaeth modern a fabwysiadir gan dyfwyr lleol.

Mae 'Wystrys y Graig Sir Benfro' yn ddanteithfwyd y mae galw mawr amdano ac maent yn mynd am bris uwch ar fwydlenni bwytai o'i gymharu ag wystrys a fasgynhyrchir. Mae 'Wystrys y Graig Sir Benfro' yn gynnyrch maint isel / gwerth uchel, sydd yn bennaf yn cael eu bwyta'n ffres ac yn amrwd gydag ychydig ddiferion o sudd lemwn, tabasco neu ddresin melengu, er enghraifft. Yn aml, gweinir wystrys mwy o faint yn boeth o'r gril gydag unrhyw nifer o fwydydd ategol arnynt megis y gymysgedd Rockefeller enwog o sbigoglys a bacwn, neu yn syml gyda menyn garlleg a pherlysiau.

# 3. Ardal ddaearyddol

Mae 'Wystrys y Graig Sir Benfro' yn cael eu ffermio yn nyfroedd llanw aber Daugleddau a llednentydd rhwng Penrhyn Santes Ann yn yr aber isaf a Phwynt Picton yn rhan uchaf yr aber.




# 4. Prawf o darddiad

Mae ffermio a phrosesu wystrys yn cael ei reoleiddio'n llym gan gyfres o reoliadau amgylcheddol, trwyddedu, bioddiogelwch a diogelwch bwyd ac yn rhinwedd hyn mae modd eu holrhain o’r ddeorfa-i’r-plât.

## Trwyddedu Ffermydd Wystrys

**Trwyddedu Safleoedd**

Mae 'Wystrys y Graig Sir Benfro' yn cael eu ffermio o fewn aber Daugleddau sy'n rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro. Rheoleiddir datblygiadau morol o fewn yr aber gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau. Mae’r blaendraeth o fewn yr aber yn eiddo Ystâd y Goron ac yn eiddo preifat. Bydd yn ofynnol i fferm sy'n tyfu wystrys Sir Benfro gael:

- Trwydded Gweithiau gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau
- caniatâd a/neu les gan y tirfeddiannwr (Ystâd y Goron neu arall)

Cyflwynir y Drwydded Gweithiau dim ond ar ôl Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, un o ofynion Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, i benderfynu a yw’r cynllun yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar safleoedd Natura 2000 megis Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr ARhC.

## Dosbarthiad Ardal Cynaeafu Pysgod Cregyn

**Rhaid cynaeafu 'Wystrys Brodorol Sir Benfro' o ardaloedd Dosbarth A neu Ddosbarth B.** Mae dosbarthiad ardal gynhyrchu yn pennu'r driniaeth sy'n ofynnol cyn y gellir marchnata Molysgiaid Dwygragennog Byw (pysgod cregyn) i bobl eu bwyta.

Dosbarthir ardaloedd cynhyrchu a hau grawn pysgod cregyn yn ôl y lefelau o E. coli a ganfyddir mewn cnawd pysgod cregyn. Mesurir lefelau o *E. coli* fesul 100g o gnawd.

Ym mhob achos, mae'r safonau iechyd wedi'u nodi yn:

*Atodiad III o Reoliad cyfraith yr UE a ddargedwir (CE) 853/2004*

*Erthyglau 53, 54 a 55 o Reoliad cyfraith yr UE (UE) 2019/627 a ddargedwir*

Rhaid hefyd bodloni meini prawf microbiolegol y cynnyrch terfynol a nodir yn Rheoliad cyfraith yr UE (CE) 2073/2005 a ddargedwir.

**Dosbarth A**

- mae'n ofynnol darparu o leiaf 10 sampl bob blwyddyn.
- rhaid i 80% o ganlyniadau'r samplau fod yn llai na, neu'n hafal i, 230 E. coli/100g.
- ni all unrhyw ganlyniadau fod dros 700 E. coli/100g.

**Dosbarth B**

- mae'n ofynnol darparu o leiaf 8 sampl bob blwyddyn.
- rhaid i 90% o ganlyniadau'r samplau fod yn llai na, neu'n hafal i, 4600 E. coli/100g.
- ni all unrhyw ganlyniadau fod dros 46000 E.coli/100g.

Er y gellir cynaeafu 'Wystrys y Graig Sir Benfro' o ddyfroedd Dosbarth A a Dosbarth B, dim ond o ddyfroedd Dosbarth A y maent yn cael eu cynaeafu ar hyn o bryd. Gellir cynaeafu wystrys o ddŵr Dosbarth A i bobl eu bwyta'n uniongyrchol os bodlonir gofynion safonol y cynnyrch terfynol.

Os cynaeafwyd Wystrys y Graig Sir Benfro yn nyfroedd Dosbarth B, mae'n ofynnol iddynt gael eu puro mewn uned buro gofrestredig.

### Monitro Dosbarthiad Pysgod Cregyn

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn nodi'r polisi cyffredinol ar gyfer monitro a dosbarthu ardaloedd cynaeafu pysgod cregyn ac mae'n gwneud yr holl benderfyniadau dosbarthu terfynol.

Mae'r Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas) yn rheoli'r rhaglen fonitro ficrobiolegol yng Nghymru a Lloegr, ar ran yr ASB ac yn ôl protocol y cytunwyd arno.

Mae Ardaloedd Cynaeafu Pysgod Cregyn sy'n cynhyrchu 'Wystrys y Graig Sir Benfro' yn cael eu samplo'n fisol gan dîm Iechyd Porthladdoedd Cyngor Sir Penfro a'r canlyniadau yn cael eu cyflwyno i Cefas. Mae'r tîm Iechyd Porthladdoedd yn monitro cynaeafu cocos, wystrys, cregyn gleision a

molysgiaid dwygragennog eraill, i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau priodol ar gyfer prosesu er mwyn atal salwch i ddefnyddwyr.

Cyhoeddir canlyniadau monitro pysgod cregyn yn fisol ar wefan Cefas.

**Awdurdodi Busnesau Cynhyrchu Dyframaethol**

**Mae angen i safleoedd sy'n cynhyrchu 'Wystrys y Graig Sir Benfro gydymffurfio â:**

- **Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009**

Cyn sefydlu fferm bysgod, pysgod cregyn neu gramenogion (a elwir yn Fusnes Cynhyrchu Dyframaethol) rhaid i fferm gael awdurdodiad BCD gan yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod (FHI). Mae hyn er mwyn atal cyflwyno a lledaenu clefydau heintus ac mae'n ofynnol i'r busnes gynhyrchu Cynllun Mesurau Bioddiogelwch Pysgod Cregyn cyn y gellir cyhoeddi BCD.

### *Cofnodion Monitro Bioddiogelwch a Symud Stoc*

Mae'n ofynnol i fusnesau sy'n cynhyrchu Wystrys y Graig Sir Benfro, fel amod eu hawdurdodi, gadw cofnodion cywir o symudiadau wystrys, gan gynnwys sil o'r ddeorfa, ar safle'r fferm ac oddi arno. Cofnodir y rhain ar gofnodion papur a'u mewnbynnu i blatfform cofnodion symudiadau FHI Ar-lein.

Mae'r Arolygiaeth Iechyd Pysgod yn cynnal ymweliadau fferm blynyddol i fonitro materion bioddiogelwch.

## Olrhain

Rheoleiddir symudiadau pysgod cregyn byw o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 sy'n darparu gofynion statudol ar gyfer cadw cofnodion ac olrhain wystrys.

**O'r Fferm i'r Ganolfan Anfon**

Ar ôl gadael y fferm mae'r llwyth o 'Wystrys y Graig Sir Benfro' yn teithio gyda Dogfen Gofrestru Dwygragennog Byw i gydymffurfio â Rheoliad yr UE Rhif 853/2004. Mae'r ddogfen hon yn cofnodi:

(i) pwy yw'r casglwr a'u cyfeiriad;

(ii) dyddiad y cynaeafu;

(iii) lleoliad y fferm wedi'i ddisgrifio mor fanwl gywir ag sy'n ymarferol neu gan rif cod;

(iv) statws iechyd yr ardal gynhyrchu;

(v) rhywogaethau a swm y pysgod cregyn; a

(vi) i ble mae'r batsh yn mynd.

Os cynaeafir 'Wystrys y Graig Sir Benfro' o ddyfroedd Dosbarth A, yn ôl y gyfraith nid oes rhaid eu puro. Fodd bynnag, os bydd cynhyrchwyr yn dewis puro eu cynnyrch, rhaid

iddynt ddilyn

y methodolegau caeth y cytunwyd arnynt gan swyddogion Iechyd Porthladdoedd, wrth drwyddedu'r Ganolfan Buro ac Anfon, a rheoliadau canllawiau ASB/Pysgod môr. Os cynaeafir 'Wystrys y Graig Sir Benfro' o ddyfroedd Dosbarth B, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith eu puro.

Ar ôl eu derbyn yn y ganolfan buro ac anfon pysgod cregyn, mae'r ddogfen yn cael ei stampio â'r dyddiad a'i chofnodi.

Fodd bynnag, ac mae hyn yn wir ar hyn o bryd yn Sir Benfro, os:

(a) ydy'r staff sy'n casglu molysgiaid dwygragennog byw hefyd yn gweithredu'r ganolfan anfon, y ganolfan buro, yr ardal hau grawn neu'r sefydliad prosesu sy'n derbyn y molysgiaid dwygragennog byw; ac

(b) mae un awdurdod cymwys (Iechyd Porthladdoedd) yn goruchwylio'r holl sefydliadau dan sylw,

yna nid oes angen dogfennau cofrestru os bydd yr awdurdod cymwys hwnnw yn caniatáu felly.

Mae pob batsh o wystrys yn mynd i ganolfan anfon ni waeth a oes angen eu puro ai peidio.

Wrth anfon i'r cwsmer mae pob archeb yn teithio gyda label gwrth-ddŵr sy'n cydymffurfio â Rheoliad (CE) Rhif 853/2004.

- Nod Adnabod (Nod Iechyd) y ganolfan anfon
- Rhywogaeth (enw cyffredin ac enw gwyddonol)
- Dyddiad pacio
- Rhif y Batsh

Mae'n ofynnol i'r manwerthwyr neu'r cwsmeriaid busnes mewn gwasanaeth bwyd sy'n derbyn y llwyth gadw'r wybodaeth hon am o leiaf 60 diwrnod ar ôl ei derbyn.

# 5. Dull cynhyrchu

1. Cyflenwir silod wystrys y graig ac wystrys y graig wedi rhannol dyfu (< 40g) o ddeorfeydd a chynhyrchwyr masnachol bioddiogel. Gall y rhain fod wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal ddaearyddol ddynodedig.
2. Rhoddir silod wystrys mewn bagiau rhwyll plastig wystrys safonol a ddelir oddi ar wely'r môr ar drestlau ar y lan isaf.
3. Mae'r wystrys yn cael eu graddio a'u hail-fagio'n rheolaidd mewn symiau llai o faint i hyrwyddo tyfiant. Fel arfer mae wystrys y graig yn cael eu graddio o leiaf ddwywaith yn eu cylch twf 2–3 blynedd.
4. Fel arfer, mae gan wystrys bach gyfradd oroesi o 80% yn ystod y 6 mis cyntaf. O 6 mis ymlaen, mae 10-20% yn tyfu'n gyflymach ac yn cael eu graddio allan a'u rhoi

yn eu bagiau eu hunain. Y rhain fydd y carfannau cyntaf i gyrraedd yr isafswm maint gwerthadwy o 75g.

5. Mae wystrys yn bwydo trwy dynnu dŵr y môr i mewn a hidlo bwyd planctonig allan cyn gadael dŵr glân allan.
6. Mae’r cynaeafu yn digwydd ar ddistyll y gorllanwau. Gwneir yr holl gynaeafu â llaw heb fawr o ddefnydd o gerbydau er mwyn diogelu'r cynefinoedd sensitif o amgylch y ffermydd.
7. Golchir yr wystrys a’u trosglwyddo i ganolfan buro ac anfon lle maent yn cael eu puro (os oes angen) a'u pecynnu.
8. Pan fydd 'Wystrys y Graig Sir Benfro’ yn dod o ddyfroedd Dosbarth A, yn ôl y gyfraith nid oes rhaid eu puro. Fodd bynnag, os bydd ffermwyr yn dewis puro eu cynnyrch, (neu os cynaeafir unrhyw 'Wystrys y Graig Sir Benfro' o ddyfroedd Dosbarth B) rhaid iddynt ddilyn y methodolegau caeth y cytunwyd arnynt gan swyddogion Iechyd Porthladdoedd wrth drwyddedu'r Ganolfan Buro ac Anfon. Os oes angen puro, gall hyn ddigwydd y tu allan i'r ardal ddaearyddol.

# 6. Cysylltiad â'r ardal ddaearyddol

Mae wystrys yn cael eu dylanwadu gan eu hamgylchedd ac fel cynnyrch maent yn mynegi llawer o'r "merroir" hwn trwy eu blas.

Gellir ond ffermio 'Wystrys y Graig Sir Benfro' yn nyfroedd llanw aber Daugleddau a llednentydd rhwng Penrhyn Santes Ann yn yr aber isaf a Phwynt Picton yn rhan uchaf yr aber.

**Daearyddiaeth**

Tarddle 'Wystrys y Graig Sir Benfro' yw'r ffactor allweddol sy’n dylanwadu ar eu ffurf a'u proffil blas. Mae "Merroir" yn derm a ddefnyddir yng nghyd-destun wystrys sy'n adlewyrchu'r cysyniad o "terroir" mewn gwin. Mae'n cyfeirio at y syniad bod blas wystrys yn cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan yr amgylchedd lle eu tyfir. Mae hyn yn cynnwys cyfansoddiad y dŵr, mathau a symiau’r algâu a bwydydd eraill sydd ar gael, cynnwys halwynedd a mwynau'r dŵr, tymheredd y dŵr, a ffactorau amgylcheddol eraill. Yn yr un modd ag y mae terroir yn effeithio ar flas a nodweddion gwin, mae merroir yn effeithio ar flas a gweadedd yr wystrys

Mae aber Daugleddau ac afonydd y Cleddau Gorllewinol a Dwyreiniol yn ffurfio rhanbarth cymhleth o aber afon llanw, gyda nifer o sianeli ochr canghennog sy'n cynnwys fflatiau llaid a morfeydd heli. Mae dyfroedd yr aber uchaf yn torri trwy ddaeareg hynafol gymhleth gan godi elfennau mwynol o Garreg Las, Hen Dywodfaen Coch, Calchfaen Carbonifferaidd a Grut Melinfaen. Mae'r gefnwlad laswelltog eang sy’n ei amgylchynu wedi'i britho ag ardaloedd o lannau creigiog serth, gyda choetir cymysg a hynafol wrth ymyl y dŵr a nifer o nentydd yn dwyn elfennau o'r cynefinoedd hyn i'r aber. I lawr yr afon mae'r dyfroedd yn teithio trwy Dywodfeini Llwydion a Chochion ac yn llifo dros wely môr tywodlyd tuag at geg yr afon. Mae'r aber allanol ddwfn i'r gorllewin o Ddoc Penfro yn foryd orlifedig gysgodol fawr (dyffryn afon hynafol). Mae ceg yr aber yn agored i'r môr agored gyda llanw a cheryntau cryfion. Mae hyn yn cyferbynnu â'r baeau cysgodol yn Dale, Bae

Angle, a morgeinciau

megis Pil Sandy Haven. Mae'r glannau creigiog isel o'i amgylch sy'n frith o wymon yn arwain at glogwyni uchel yn y rhan sydd agosaf at y môr. Ystyrir bod y gymysgedd gymhleth o elfennau hybrin a gludir gan ddyfroedd yr aber yn cyfrannu at "merroir" 'Wystrys y Graig Sir Benfro' y disgrifir bod iddynt ansawdd mwynol cymhleth ar y daflod gyda
blas heli menynaidd boddhaus.

Mae ardaloedd tyfu 'Wystrys y Graig Sir Benfro' yn elwa o'r cymysgu afreolus o ddŵr môr glân, llawn maethynnau'r Iwerydd, a ddygir ddwywaith y dydd gan y llanwau mawr, gyda dyfroedd melys aber Daugleddau. Mae'r cylchrediad hwn o ddŵr yn yr aber dwfn yn creu amgylchedd gyda chymysgedd unigryw o ddŵr hallt y môr a dŵr afon. Yr ardal hon, lle mae'r dŵr hallt o'r môr yn cymysgu â'r dŵr ffres o afonydd y Cleddau Gorllewinol a Dwyreiniol, sy'n gartref i'r prif ardaloedd ar gyfer ffermio wystrys.

Mae amgylchedd morol aber Daugleddau, lle mae ddyfroedd Iwerydd cyfoethog eu maethynnau yn cymysgu â dŵr croyw sy'n llifo i lawr o Fynyddoedd y Preseli trwy forfeydd heli a gwelyau morwellt, yn cyflwyno set unigryw o nodweddion neu "merroir" i'r wystrys. Gan gyfrannu at 'merroir' ysgafn glân blas heli, ciwcymbr ffres a thinc o sitrws a glaswellt yr wystrys *gydag ansawdd mwynol cymhleth ar y daflod.*

Mae wystrys yn hidlwyr bwyd ac yn dibynnu'n llwyr ar ffynonellau lleol o fwyd planctonig. Ffytoplancton (algâu un gell forol) a Mater Organig Gronynnol (MOG) megis morwellt microsgopig a darnau o wymon yw'r bwyd hwn yn bennaf.

Mae amrywiadau sylweddol ond rhagweladwy o ran argaeledd bwyd planctonig. Mae'r rhain yn cael eu dylanwadu gan newidiadau tymhorol mewn tymheredd, oriau golau haul ac amodau hinsoddol fel glawiad o amgylch Sir Benfro. Fel arfer, ceir gordyfiant ffytoplancton yn ystod y gwanwyn, gyda thymheredd dŵr y môr yn cynhesu, sy'n sbarduno ac yn cefnogi tyfiant yr wystrys.
Mae'r cyflenwad o ffytoplancton yn gwastatáu dros yr haf ac fe'i dilynir gan ordyfiant hydrefol pellach yn ystod misoedd ola'r haf. Mae MOG yn amrywio trwy gydol y flwyddyn ond credir y ceir mwy o MOG sy'n tarddu o'r gwelyau morwellt a'r gwymon rhynglanwol gerllaw yn ystod yr hydref a dechrau'r gaeaf wrth i'r morwellt collddail golli eu ffrondau a thywydd stormus chwalu'r ceinciau gwymon.

Drwy gydol oes yr wystrys, mae'r ffynonellau lleol hyn o fwyd planctonig yn rhoi amrywiaeth gymhleth o flasau ysgafn i'r cnawd a gallant hyd yn oed ddylanwadu ar liw'r cnawd a'r gragen.

Mae aber Daugleddau yn ffurfio rhan o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol Sir Benfro (ACA) ac mae rhan helaeth o'r dalgylch yn ffurfio ACA Afonydd y Cleddau ac fel y cyfryw maent yn cael eu monitro'n rheolaidd am ansawdd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyflenwir silod wystrys ac wystrys wedi'u rhannol dyfu o ddeorfeydd masnachol. Yna tyfir Wystrys y Graig Sir Benfro yn gyfan gwbl o fewn cyfres o ACA a Safleoedd o Diddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) bioamrywiol a chyfoethog.

**Hanes –**

Mae'r cysylltiad cryf rhwng yr ardal ddynodedig ac wystrys yn amlwg o gofnodion hanesyddol gyda physgodfeydd wystrys tan ddechrau'r 2000au yn ddiwydiant pysgod

cregyn pwysig yn Ne Cymru.

Bu ffermio 'Wystrys y Graig Sir Benfro' yn aber Daugleddau ers y 1980au ac fe’i ysgogwyd mewn ymateb i ostyngiad mewn niferoedd wystrys brodorol gwyllt a galw cryf yn y farchnad am yr wystrys gorau. Cafodd 'Wystrys y Graig Sir Benfro' eu ffermio mewn niferoedd mawr ar safleoedd yn Beggars Reach a Chei Creswell yn yr aber uchaf yn ystod yr 1980au a dechrau'r 1990au. Gorfodwyd y ffermydd hyn i gau ar ôl arllwysiad olew y Sea Empress ym mis Chwefror 1996 ac yn anffodus collwyd llawer o'r diwylliant bwyd lleol cysylltiedig ag wystrys tan yn ddiweddar.

Mae 'Wystrys y Graig Sir Benfro' yn rhan ganolog o adfywiad yn Sir Benfro gyda fferm newydd yn dechrau cynhyrchu ym Mae Angle yn rhan yr aber sy’n wynebu’r môr yn 2018. Mae'r cynhyrchu presennol yn agos at 200,000 o wystrys y flwyddyn ac maent yn ymddangos yn rheolaidd ar fwydlenni bwytai yn y rhanbarth ac yn ganolbwynt gwyliau wystrys mewn tafarndai lleol.

**Ffactorau Dynol -**

**Gwybodaeth a Sylfaen**

**Sgiliau**

Mae arfer gorau tyfu wystrys wedi datblygu gydag agweddau’n newid tuag at y ffordd mae ffermwyr yn gweithio gyda'r byd naturiol. Mae ffermwyr wystrys wedi datblygu dulliau newydd o dyfu Wystrys y Graig Sir Benfro sy'n golygu mai ysgafn yw cyffyrddiad eu gweithrediadau ar amgylchedd y môr. Mae'r ystyriaethau hyn yn golygu bod maint y cynhyrchu yn gymharol fach o'i gymharu ag ardaloedd cynhyrchu mwy diwydiannol eraill yn Ewrop. Mae ffermwyr meintiau mawr yn Iwerddon a Ffrainc yn elwa o economïau maint ond mae angen ôl-troed mawr cyfatebol arnynt o ran lle ar y lan a lefelau uchel o fecaneiddio gyda'r defnydd o dractorau a pheiriannau ar y lan. Mae ffermio wystrys mewn safleoedd sensitif yn Sir Benfro, lle mae pob rhan o'r lan yn warchodedig iawn, yn gofyn am fodel busnes gwahanol sy’n seiliedig ar gynhyrchu cyfaint isel o ansawdd uchel sy'n galluogi'r defnydd o lai o fecaneiddio a cherbydau llai sy’n cael effaith fach a mabwysiadu ôl troed gofodol llai sy'n lleihau’r effeithiau posibl ar gynefinoedd y glannau. Mae tyfu wystrys yn yr aber yn gofyn am set benodol o sgiliau gan fod angen i gynhyrchwyr wystrys ddeall bioleg ac ecoleg eu hwystrys, cylchoedd bywyd naturiol wystrys a'r amgylchedd ehangach, ac yna gallu cymhwyso'r ddealltwriaeth honno i'w hwsmonaeth stoc a'u gweithrediadau sydd eu hunain yn cael eu pennu gan y llanw, y gwynt a’r tywydd.

Mae gweithio'n ddiogel mewn aber gydag un o'r amrediadau llanw mwyaf yn y DU yn gofyn am ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth drylwyr o'r môr a sut y gall y tywydd ddylanwadu ar ei ymddygiad. Dim ond wrth wneud y gwaith y gellir dysgu'r dyfnder dealltwriaeth hwn a thrwy brofiad a drosglwyddir i newydd-ddyfodiaid.

**Cynaliadwyedd**

Ystyrir mai ffermio wystrys yw'r prif fath o Ddyframaeth Adferol ac mae'n cynnig cyfres o wasanaethau ecosystemol i'r amgylchedd gan ei adael mewn cyflwr cymharol well. Mae ffermio wystrys yn darparu gwasanaethau pwysig i’r ecosystem, gan gynnwys hidlo dŵr, gan fod wystrys yn cael gwared ar lygryddion a maethynnau gormodol yn effeithlon, gan wella claerder ac ansawdd y dŵr. Yn ogystal, mae ffermio wystrys yn creu cynefinoedd ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau morol, gan wella bioamrywiaeth a chefnogi

ecosystemau arfordirol. Mae'r system drwyddedu gynhwysfawr yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl ffermio wystrys a gynhelir yn yr aber yn destun

Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd helaeth. Mae hyn yn sicrhau bod rheoli ffermydd a gweithrediadau ffermydd yn mynd i'r afael â’r risg i gynefinoedd a rhywogaethau sensitif.

**Enw da**

Mae'r defnydd o'r enw 'Wystrys y Graig Sir Benfro' fel cynnyrch o safon wedi hen ennill ei blwyf ac yn cael ei gydnabod yn eang gan y diwydiant bwyd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol ymhlith gwerthwyr pysgod a bwytai. Fe'u defnyddir gan gogyddion sy'n gwerthfawrogi eu hansawdd a'u merroir unigryw, ac maent yn ymddangos yn rheolaidd fel cynhwysyn a enwir ar eu bwydlenni. Mae llawer o berchnogion bwytai a busnesau bwyd-amaeth o fri wedi dangos eu hoffter o’r wystrys hyn fel y dangosir isod.

Mae galw mawr am 'Wystrys y Graig Sir Benfro' gyda chogyddion yn eu cyrchu ar gyfer bwytai arbenigol ledled y DU.

Dyfyniadau:

**Wystrys y Graig Sir Benfro**

“*Mae gan Wystrys y Graig Sir Benfro lawer o rinweddau rhagorol gyda **pherarogl ciwcymbr cryf** ac **ansawdd mwynol cymhleth**, hallt hyfryd ar y daflod sy'n adlewyrchu ansawdd a phurdeb ein dyfroedd arfordirol*”.

Fred Clapperton (Cogydd Gweithredol, Coast, Saundersfoot)

“*Priodoledd mwyaf trawiadol Wystrys y Graig Sir Benfro yw eu proffil blas ysgafn; maen nhw'n llythrennol yn blasu'n anhygoel o '**ffres**'. Pam? Mae'r wystrys hyn wedi tyfu mewn ardal sy’n frith o laswellt y môr, gan roi iddynt nodweddion sitrws a glaswelltog. I unrhyw un sydd wedi cael **Jin gyda chiwcymbr**, maen nhw’n blasu bron yn union fel hyn. Nid oes ganddynt yr adflas metelaidd hwnnw na hyd yn oed blas hallt gormodol. Yn union fel y dyfroedd lle maen nhw’n byw - maen nhw jyst yn hyfryd o **bur***”

Ben King (Pesky Fish) Llundain)

**Gwobrau**

**Gwobr Great Taste 2022**

Enillodd 'Wystrys y Graig Sir Benfro' Wobr Great Taste (2 Seren) yn 2022 a nhw oedd yr unig wystrys a enillodd wobr y flwyddyn honno.

Sylwadau’r beirniaid:

“Waw! Hyfrydwch glan môr hallt, ffres. Blas hallt osôn, mwynol-gyfoethog glân sy'n eich cludo i'r arfordir. Melyster hir-barhaol ar y daflod gyda, fel y dywedwch blas ciwcymbr danteithiol ysgafn hollol syfrdanol. Dŵr glân, nefolaidd. Mae eich disgrifiad yn berffaith - mae’n gadael ar ei ôl nodyn hallt ysgafn sy'n cydbwyso â'r ciwcymbr a'r mwynau môr i ddeffro'r daflod a rhoi gwên ar eich wyneb! Hudolus."

"Am ddisgrifiad hyfryd i gyd-fynd â wystrys mor enfawr a mawreddog! Mae perarogl osôn hyfryd. Mae’r blas hallt yn eich taro gyntaf, wedyn y melyster hufennog gydag awgrym o sitrws ac, ie, mae'r ciwcymbr hwnnw'n datblygu ar y diwedd. Rydych chi'n teimlo eich bod chi'n bwyta darn o'r môr."

"Mae bob amser yn bleser rhoi cynnig ar wystrys ffres, ac mae'r rhain yn hyfryd, yn llawn blasau

dŵr môr mwynol gydag awgrym o awyr iach arfordir Sir Benfro."

## 7. Corff archwilio

Enw: Dinas a Sir Abertawe

Cyfeiriad: Is-adran Safonau Masnach, Neuadd y Ddinas, Abertawe, SA1

4PE Ffôn: +44 (0) 1792 635600

Ffacs:

E-bost: safonau.masnach@abertawe.gov.uk

Mae'r corff archwilio yn cydymffurfio ag egwyddorion safon ISO 17065.

## 8. Labelu

DIWEDD

Templed manyleb cynnyrch ETG DDG PN09 fersiwn 1 Rhagfyr 2020